
# Ewch am dro o amgylch y Gaer Rufeinig

Mae pobl leol wedi dod o hyd i eitemau Rhufeinig ar y safle yma ers cyn cof; os ydych yn gwybod lle i edrych, gallwch chi hefyd ganfod tystiolaeth o'r Rhufeiniaid! Mae'r tro yma o amgylch safle'r Gaer Rufeinig yn cymryd tua 30 munud. Cychwynnwch o Olygfan Rhif 1 isod a dilynwch y rhifau o amgylch y llwybr.



### Y Rheithordy

Roedd y Parch. T.J.Jones, Rheithor Gelligaer yn byw yma. Yn 1892, pan gafwyd hyd i grochenwaith Rufeinig ar dir y Rheithordy, dechreuodd droi ei sylw at y caeau o'i amgylch a beth allai fod wedi'i gladdu yno. Mae'r llun yma'n dangos y Rheithor a John Ward yn archwilio ystafell chwysu'r baddondy.

## Llwybr Cliwiau'r plant's

Henffych! Fy enw yw Secundus ac roeddwn i'n grochenydd yma yn y Gaer Rufeinig. Ar rai o'r darnau crochenwaith mae archeolegwyr wedi'u canfod, fe welwch fy marc i – SEC.FEC.




Pan oeddwn i'n byw yma, roeddwn i bob amser yn colli pethau, felly dw i wedi rhoi cyfres arbennig o gliwiau ar hyd eich llwybr. Dilynwch fy nghliwiau a dewch o hyd i fy mhethau. Casglwch lythyren ymhob stop, a rhowch nhw yn y grid isod i sillafu gair sy'n rhywbeth i'w wneud gyda'r safle.

Os ydych yn anturus iawn, (ac os oes gennych bapur a chreon) gallwch rwbio'r papur dros y siapiau i gael llun y siâp. Yna gallwch eu huno nhw gyda'i gilydd i ffurfio llun mwy o anifail sy'n cael ei gysylltu gyda'r Rhufeiniaid yn aml iawn.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

Mae'r hawlfraint am bob darlun ar y dudalen hon yn eiddo i Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.





### Y Gaer Bren Gynharach

Adeiladwyd y gaer wreiddiol yn y fan yma tua 74 – 78 O.C. Roedd hyd at 1000 o wŷr traed neu 500 o wŷr meirch yn byw yno a chafodd ei dinistrio gan dân, i glirio'r safle mae'n debyg cyn i'r gaer garreg gael ei hadeiladu. Chafodd y safle yma ddim ei gloddio tan 1963.

### Gaer Fawr

Yn ystod y cloddio cyntaf yn 1899, cafwyd hyd i sylfeini 'caer nodweddiadol Rufeinig'. Doedd y gaer ddim yn berffaith betryal. Mae'r safle yma'n agored iawn ac mae gwyntoedd cryfion yma, felly efallai bod hyn wedi effeithio ar offer y tirfesurydd Rhufeinig oedd yn mesur y safle ar gyfer adeiladu'r gaer.



### Y Maes Parêd

Yn 1913 cafodd John Ward hyd i 'ddarn o dir heb adeiladau' yn y fan yma 'gyda cherrig mân wedi'u gosod yn ofalus arno'. Dyma'r maes parêd, a ddefnyddiwyd ar gyfer seremoniau crefyddol yn ogystal ag ymarfer corff a hyfforddi.



### Baddondy


Roedd y bobl leol yn meddwl bod mwy o waliau wedi'u cloddio yn y cae yma ac, yn 1908, archwiliodd John Ward yr ardal yma a dod o hyd i randy gerllaw'r gaer oedd yn cynnwys y baddonau Rhufeinig – rhes o ystafelloedd poeth, cynnes ac oer yn ogystal â'r siambr chwysu gron, a welwch yma.

### Gwersylloedd Ymarfer

Yn rhan o'r hyfforddiant yn y fyddin Rufeinig roedd yn rhaid torri coed i lawr, torri darnau pren, cloddio ffosydd a gwneud rhagfuriau. Roedd hyn i gyd yn ymarfer da ar gyfer adeiladu gwersylloedd. Gallwch weld nifer o'r 'gwersylloedd ymarfer' yma ar ddwy ochr y ffordd Rufeinig wrth iddi groesi Comin Gelligaer.


### Heol Adam – Ffordd Rufeinig

Bu cannoedd o filwyr Rhufeinig yn gorymdeithio ar hyd y ffordd yma. Roedd hi'n ffordd hanfodol i bobl Caerdydd gysylltu gyda phobl Aberhonddu. Mae hi'n ffordd syth iawn, sy'n arferol gyda ffyrdd Rhufeinig, ac roedd y ffyrdd yn cysylltu caerau oedd bellter diwrnod o orymdeithio oddi wrth ei gilydd. Hyd yn oed heddiw, mae'r ffordd Rufeinig sy'n ymestyn o'r gogledd ar draws Comin Gelligaer yn amlwg fel llinell syth ar y map.



### Ffordd y Rheithordy

Edrychwch i weld a allwch chi ganfod cerrig sgwâr wedi'u torri'n daclus yn waliau Ffordd y Rheithordy. Wrth i'r gaer Rufeinig ddadfeilio, roedd pobl leol yn ailddefnyddio cerrig o'r gaer. Mae'r llun yma'n dangos amlinelliad carreg y Porth Gogledd Orllewinol yn y Gaer Fawr.



### Ysgol Lewis

Dyma oedd safle Ysgol Lewis, a gafodd ei hadeiladu o gerrig y gaer. Defnyddiwyd yr hen dŷ ysgol i storio a rhoi trefn ar eitemau y cafwyd hyd iddynt yn ystod y gloddfa archeolegol; *'erbyn diwedd y cloddio, roedd berfa ar ôl berfa o eitemau wedi'u canfod'.*

## CYCHWYN

### a'r lle gwylio

Cychwynnodd y Rhufeiniaid eu goresgyniad o Brydain yn 43 OC, ond roedd y Silures, y bobl oedd yn byw yn yr ardal yma, yn eu gwrthsefyll nhw'n gryf. I sicrhau eu safle yn yr ardal, adeiladodd y Rhufeiniaid rwydwaith o gaerau a ffyrdd. Yn y gaer hon roedd 500 o bobl yn byw, yn wŷr traed ac yn wŷr meirch.

### Y Porth De Ddwyreiniol

Roedd pedair mynedfa i'r gaer, un ar bob ochr. Diolch i ddarnau o garreg gydag arysgrif arnynt a ganfuwyd gerllaw'r Porth De Ddwyreiniol, roedd yr archeolegwyr yn gwybod bod y safle'n dyddio o 103 – 111, pan oedd yr Ymherodr Trajan yn ei bumed conswliaeth.

### Odyn Grochenwaith Rufeinig

*'Wrth dorri beddau rydym wedi dod o hyd i lawer o ddarnau bach o deils to, brics ac yrnau',* ysgrifennodd y Rheithor yn 1913. Roedd odyn grochenwaith Rufeinig yn y fan yma ers talwm.

### Mynwent Rufeinig

Yn ôl y gyfraith, roedd yn rhaid i Rufeiniaid gladdu eu meirw y tu allan i'r ardaloedd lle'r oedd pobl yn byw. Roedd hi'n arferol i amlosgi cyrff marw bryd hynny a chafwyd hyd i yrnau yn y fan yma ac wrth ymyl yr Harp Inn yn 1910. Mae hyn yn awgrymu bod mynwent yn yr ardal hon ers talwm.